

Cofeb Ryfel Pentref Pen-allt

Cynlluniwyd a chrëwyd Cofeb Ryfel ym Mhen-allt, Sir Fynwy gan Bwyllgor Rhyfel y Pentref ar ôl y Rhyfel Mawr. Ym mis Hydref 1919, cynhaliodd y pwyllgor gyfres o ddiwyddiadau i godi arian a derbyniwyd rhoddion gan rai pentrefwyr. Cadeirydd y pwyllgor oedd Ficer Pen-allt, y Parchedig John Le Geyt du Heaume.

Comisiynwyd saer maen lleol, Mr Ballinger i wneud y Gofeb yn ei weithdy yn Llanddingad.

Cyhoeddodd The Monmouthshire Beacon erthygl fach ar 1 Chwefror 1921 yn hysbysu darllenwyr bod:

"War memorial. – Some time ago a meeting of the War Memorial Committee took place at which Mr Ballinger's tender for erecting a memorial cross in blue Portland stone, with base and three steps, was accepted. The site will be a strip of grass opposite the Vicarage gates. The monument will be ready for unveiling on Palm Sunday. The fund is in hand and is £10 short of the estimate fee."

Costiodd y Gofeb £88-6s, a oedd yn llawer o arian ym 1921. I rai teuluoedd, roedd hyn tua theirgwaith incwm blynyddol yr aelwyd. Gwnaed taliad terfynol o £15-11s i Mr Ballinger ar Ddiwrnod y Cadoediad, 11 Tachwedd 1921. Cyhoeddwyd yn rhifyn dydd Gwener 4 Mawrth, 1921 o The Beacon bod y gofeb i'w dadorchuddio ddydd Sadwrn 12 Mawrth, 1921 am 2.30pm a chafwyd adroddiad yn rhifyn dydd Gwener 18 Mawrth, 1921, o The Beacon am seremoni ddadorchuddio Cofeb Ryfel Pen-allt ym Mhentwyn, Pen-allt. Dadorchuddiwyd y Gofeb gan The Mackintosh of Mackintosh, enw enwog ar y pryd.

Dywed yr arysgrif ar y gofeb *'To the Immortal Memory of the Men of this Parish who died for God, King and Country in the Great War, 1914-1919. In Loving Gratitude from their Friends at Penallt.'*

Nid oedd enwau'r pedwar ar ddeg o ddynion y plwyf a wnaeth yr aberth eithaf ar y gofeb ond cawsant eu hysgrifennu a'u rhoi mewn potel wedi'i selio sydd yng ngwaelod y gofeb. Mae'r botel yn cynnwys enwau'r pwyllgor hefyd.

Enwau'r rhai a fu farw yw: R. Pearce-Brown, S. Davies, J. Gleed, E.T. Cope, R. Gunter, A. England, R. England, G. Wilkins, Victor Wilkins, Charles Vaughan, E. Morgan, W. Morgan, F. Wilkins, F. Roberts.

(D.S. Roedd yr adroddiad hwn yn The Beacon yn cynnwys nifer o wallau: Bu farw A. England o achosion naturiol, G.E. Cope oedd E.T. Cope mewn gwirionedd a P. Roberts oedd F. Roberts mewn gwirionedd.)

Dangosodd arolwg yn 2010 bod y gofeb mewn cyflwr gwael iawn ac yn dechrau gwyro i un ochr gan wneud y strwythur yn ansefydlog.

Yn 2013, gwnaeth Peter Garwood o Dryleg a John O'Brien o Catbrook gyfres lwyddiannus o geisiadau am grant i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Cymuned Tryleg. Cafwyd cyfraniadau eraill gan y Gymdeithas y Llynges Frenhinol, y Llenng Brydeinig Frenhinol, a phentrefwyr Pen-allt.

Y saer maen a ddewiswyd i wneud y gwaith ar y Gofeb oedd Scott T. Fisher, o Coleford. Dechreuodd y gwaith ar 15 Gorffennaf 2014. Y gobaith oedd y gallai'r gwaith adnewyddu ddatgelu bod y stori am roi'r botel yn y Gofeb cyn iddi gael ei selio ym 1921 yn stori wir.

Llwyddwyd i fynd i mewn i sylfaen y Gofeb ar ôl tynnu'r groes a'i sylfaen a'r haen uchaf o risiau, a gweld ei fod wedi'i lenwi â hen goncrid 93 oed. Roedd y tîm yn gyffrous iawn o weld y botel yn glir, gan brofi bod y stori o'r Beacon ym 1921 yn gywir. Roedd darn cyfan o bapur y tu mewn i'r botel, a hwnnw wedi'i blygu ddwywaith a'i rollo i'w roi yn y botel. Llwyddwyd gyda chryn ofal i ryddhau'r botel, ei selio a mynd â hi i wasanaeth cadwraeth Archifau Gwent yng Nglynebwy.

Ar 21 Awst 2014 symudwyd y ddogfen. Roedd yr inc yn ddigon darllenadwy mewn llawer man. Gwnaeth yr Archifdy waith cadwraeth ar y papur, ac mae'r ddogfen wreiddiol a'r botel yn rhan o'r archif yn Archifdy Gwent erbyn hyn, sy'n golygu y byddant yn cael eu diogelu, eu cadw ac ar gael i gynulleidfa eang.

Mae yna wallau ar y ddogfen yn y botel hefyd. Am ryw reswm anesboniadwy, ni chafodd enwau Charles Vaughan a R. England eu cofnodi ar y ddogfen cyn ei rhoi yn y botel. Yn ogystal, John Gleed oedd George Gleed mewn gwirionedd.

Cwblhawyd y gwaith ar y Gofeb ym mis Medi 2014. Mae dau gapsiwl amser yn y Gofeb erbyn hyn sy'n cynnwys y wybodaeth wreiddiol o 1921, ac yn seiliedig ar waith ymchwil modern, archif manwl am y dynion a wnaeth yr aberth eithaf dros eu Brenin a'u Gwlad ac am y rhai o'r pentref y gwyddys iddynt wasanaethu a goroesi.

Ddydd Sadwrn 20 Medi 2014, dadorchuddiwyd y Gofeb i'r Rhyfel Mawr ar ei newydd wedd ym Mhen-allt gan hanesydd pentref Pen-allt ac awdur dau lyfr ar hanes Pen-allt, Mr Vernon Kimber, a'i hail-gysegru gan y Parch Sandra Howells. Gorchuddiwyd y Gofeb gan faner Jac yr Undeb fawr a chodwyd baner yr Undeb ar y polyn cyfagos gan Mrs P. Evill. Daeth torf fechan o bentrefwyr ynghyd ychydig cyn 11 y bore, rhai ohonynt yn perthyn yn uniongyrchol i ddynion o'r pentref a fu farw yn y Rhyfel Mawr, ynghyd â mintai o'r Lleng Brydeinig Frenhinol a Chymdeithas y Llynges Frenhinol a fu'n ddigon caredig i ddarparu llumanwyr ar gyfer y seremoni. Yn ogystal, roedd nifer o ddynion a menywod sy'n gwasanaethu neu a fu'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn bresennol, ac wedi teithio cryn bellter i anrhydeddu eu cymrodyr o'r oes a fu.

Gwnaeth Mr John O'Brien anerchiad yn croesawu pawb ac yn eu cyflwyno, a siaradodd Mr Vernon Kimber am effaith gyffredinol y Rhyfel Mawr ar y wlad a'r pentrefwyr. Yna, dadorchuddiodd y Gofeb drwy dynnu'r faner oddi arni. Yna'n huawdl iawn, ail-gysegrodd y Parch Sandra Howells y Gofeb. Darllenwyd pennill Laurence Binyon ac enwau'r rhai a drigodd gan Peter Garwood. Cyflawnodd y Parch Howells y Ddefod Ymrwymo ac ymatebodd y rhai a oedd wedi dod ynghyd i hynny. Chwaraeodd Ceri Edmonds o Fand Brynbuga y Post Olaf, ac ar ôl y ddau funud o dawelwch chwaraeodd Reveille. Daeth y seremoni i ben drwy ganu'r anthemau cenedlaethol. Fel rhan o'r grantiau, cynhaliwyd arddangosfa fechan ym Mhen-allt ar 16 Ebrill 2016, a chynhyrchwyd y llyfryn hwn.

2il Is-gapten Richard Pearce-Brown

Ganwyd Richard Pearce-Brown 16 Ebrill 1882, yn Thorngaby, Swydd Efrog. Pan ymrestrodd, roedd yn ariannwr mewn banc. Roedd teulu Richard Pearce-Brown yn byw mewn tŷ ag wyth ystafell, Traligael yn Ngwenffrd.

Yn 32 oed, ymunodd â'r Coldstream Guards fel Preifat 13928 Richard Pearce-Brown yn Doncaster ar 25 Tachwedd 1914 a rhoddwyd comisiwn iddo ar 29 Ebrill 1915. Symudodd i 4ydd Bataliwn y Durham Light Infantry fel Ail Is-gapten. Aeth Richard Pearce-Brown i Ffrainc ar 12 Mai 1916 ac roedd yn 34 oed pan gafodd ei ladd yn y Somme ar 17 Gorffennaf 1916. Gwasanaethodd yng Nghwmni D y 12fed Durham Light Infantry.

Roedd yn ddyn tal a chydnerth, ac mae'n rhaid bod ei faint wedi'i wneud yn darged hawdd yn y ffosydd a'r ymosodiadau yn nhir neb. Roedd yn gymharol ddibrofiad ac unwaith iddo gyrraedd y ffosydd, dim ond am ychydig dros wyth wythnos y bu fyw wedyn.

Y medalau yr oedd gan Richard Pearce-Brown hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain a'r Fedal Buddugoliaeth ond nid Seren 1915. Claddwyd Richard ym Mynwent Brydeinig Pozieres, Ovilliers-La-Bois.

2il Is-gapten Sidney Alfred Davis

Roedd Sidney Alfred Davis yn fab i Henry a Fanny Louisa Davis o Bridge Cottage, Redbrook. Fe'i ganwyd ym Mhen-allt ym 1892.

Yn ôl cyfrifiad 1901 roedd yn byw yn Lone Lane, Pen-allt. Roedd yn gyn-ddisgybl Ysgol Trefynwy. Priododd Sydney ag Edith Louise Davis (Godfrey gynt) yn ail chwarter 1917.

Gwasanaethodd gyda Bataliwn 1/4ydd y Gloucestershire Regiment fel Preifat 2569 TF S. A. Davies (Territorial Force) o 2 Medi 1914 tan Ionawr 1917. Bryd hynny trosglwyddodd i Fataliwn 1/5ed y Gloucestershire Regiment gan ddod yn Gorporal 100613 S. A. Davies. Rhoddwyd comisiwn iddo ar 26 Ebrill 1917.

Lladdwyd Sydney ar 22 Awst, 1917 yn yr ymosodiad yn Ypres ac yntau'n 25 oed.

Is-gapten G. E. Cope (Preifat E Cope)

Roedd y teulu Cope byw yn Fernside, Gwenffrwd, tan 1915. Ganwyd George Eric Cope ar 18 Ebrill, 1896, yn Hoylake, Swydd Gaer, West Kirby, Lloegr. Ymunodd Eric Cope â'r fyddin ar 14 Hydref 1914 fel 14634 Corporal George Eric Cope, 12fed Bataliwn y Gloster Regiment gan ddod yn Is-gorporal ar 15 Rhagfyr 1914 ac yn Gorporal ar 30 Ionawr 1915. Ar ôl 222 diwrnod o wasanaeth cartref derbyniodd gomisiwn ar 5 Ebrill, 1915, i ddod yn Is-gapten yn y Northumberland Fusiliers, 20fed Bataliwn (Tyneside Scottish). "20fed Bataliwn Northumberland Fusiliers". Croesodd i Ffrainc ym mis Ionawr 1916.

Lladdwyd George Eric ar 1 Gorffennaf, 1916, yn Thiepval, Ffrainc, yn ystod Brwydr y Somme. Mae'n cael ei goffáu ar Gofeb Thiepval. Y medalau yr oedd ganddo hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain a'r Fedal Buddugoliaeth ond nid Seren 1915.

Preifat R4/088207 Arthur Henry England

Ganwyd Arthur Henry England yn Llanfihangel Troddi ym 1885, yn fab i Edwin a Mary England. Dengys cyfrifiad 1911 ei fod wedi symud i Chapel Farm ym Mhen-allt a'i fod yn gweithio fel ffermwr. Ymrestrodd Arthur Henry ar 16 Tachwedd 1914. Ym mis Tachwedd 1914 mae yn Adran Trafnidiaeth Cymru. Erbyn 29 Rhagfyr, 1916, roedd yn "C" Squadron, The Army Service Corps 2nd Remount Depot. Nid yw'n hysbys ym mha frwydrau y bu'n

gwasanaethu. Y medalau yr oedd ganddo hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain a'r Fedal Buddugoliaeth ond nid Seren 1915.

Mae cerdyn mynegai medalau Arthur yn dangos iddo gael ei ryddhau o'r fyddin ar 5 Medi, 1917 yn dioddef o salwch. Nid yw'n nodi beth oedd y salwch, ond yn ôl pob tebyg cafodd ei glwyfo a dirywiodd ei iechyd. Dyfarnwyd y Bathodyn Rhyfel Arian iddo, rhif 235794.

Bu farw Arthur gartref ar 8 Ionawr, 1918, yn 32 oed ac fe'i claddwyd ym Mynwent Eglwys Pen-allt ar 18 Ionawr 1918.

Gyrrwr 397 Robert England Royal Field Artillery (T), 630123 Royal Horse and Royal Field Artillery

Roedd yr adroddiad gwreiddiol yn The Beacon am ddadorchuddio'r Gofeb Ryfel yn rhestru "R. England" fel un o'r meirw. Nid yw'r enw hwn yn ymddangos ar y plac yn Eglwys Pen-allt. Nid ydym chwaith wedi dod o hyd i gofnod marwolaeth rhyfel swyddogol ar gyfer "R. England" sy'n ei gysylltu â Phen-allt. Roeddem yn credu ei fod wedi'i restru yn The Beacon oherwydd y teimlid bod ei farwolaeth wedi digwydd yn sgil y rhyfel. Dengys ei dystysgrif marwolaeth y bu farw ar 18 Ebrill 1918 yn 31 oed, o ganlyniad i TB ar yr ysgyfaint (T.B.). Dywed hefyd bod ei frawd R. England yn bresennol pan fu farw. Roedd hyn yn Rushton England yn ôl pob tebyg. Gwas fferm oedd galwedigaeth Robert ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw gysylltiad milwrol â'i farwolaeth. **Fodd** bynnag, canfuwyd cerdyn mynegai medalau ar gyfer dyn a oedd yn y Royal Field Artillery (Territorial) fel Gyrrwr 397 Robert England, ac a ddaeth yn ddiweddarach yn Yrrwr 630123 Robert England. Byddai safle'r Gyrrwr yn ddelfrydol ar gyfer dyn a gafodd brofiad o geffylau ar fferm. **Roedd** yna gofnod bod y Robert England hwn wedi'i anafu, rhoddwyd y Bathodyn Rhyfel Arian iddo, a chafodd ei ryddhau o wasanaethu ar 21 Mai, 1917 o dan Reoliadau Kings, Para 392, XVI.

Gallai hyn esbonio pam bod ei enw yn The Beacon pan ddadorchuddiwyd y Gofeb Ryfel ym mhentref Pen-allt ym 1921. Gwasanaethodd yn Ffrainc o 2 Mai 1915 ymlaen, a'r medalau yr oedd ganddo hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain, y Fedal Buddugoliaeth a Seren 1915. Ar ôl ei ryddhau, dychwelodd Robert England i ennill ei fywoliaeth ar fferm, a fyddai'n egluro'r alwedigaeth ar y dystysgrif farwolaeth. Mae'r Beacon yn cofnodi bod y ddau frawd yn gwasanaethu yn Adran Drafnidiaeth Cymru ym mis Tachwedd 1915. O fis Rhagfyr 1917 dim ond Arthur sydd yn y fyddin.

Claddwyd Robert England ym medd y teulu ym Mynwent Eglwys Pen-allt ar 21 Ebrill, 1918. Nid yw ei enw yn ymddangos ar y gofeb o fewn yr eglwys ac efallai mai'r rheswm yw ei bod yn teimlo na chafodd ei farwolaeth ei briodoli i wasanaeth rhyfel.

Nid oes unrhyw nodiadau cyfoes o gyfarfodydd pwyllgorau pentref mewn unrhyw archif yr ydym wedi ymgynghori i gael cipolwg ar y rheswm dros beidio â chael ei enwi ar gofeb yr eglwys.

Preifat 11669 John Glead

Ganwyd John ym 1895, ym Mhen-allt, yn fab i George a Eliza Glead o Bannut Tree, Pen-allt. Ymunodd John Glead â Bataliwn 1af y Royal Welsh Fusiliers a oedd yn ymrestru yn Nhrefynwy a daeth yn Breifat 11669 John

Gleed. Aeth i faes y gad ar 23 Tachwedd 1914 ac fe'i lladdwyd mewn brwydr ar 16 Mai, 1915, yn 20 oed. Ef oedd y dyn cyntaf o Ben-allt i farw ar faes y gad.

Gwasanaethodd John yn Ffrainc a Fflandrys. Y medalau yr oedd ganddo hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain, Medal Buddugoliaeth Prydain a Seren 1915. Gan nad oes ganddo unrhyw fedd hysbys caiff ei enwi ar Gofeb Le Touret.

Gyrrwr W/1616 Reginald Charles Gunter

Ganwyd Reginald yng Nghaerwrangon ym 1895, yn fab i Alice Gunter a Charles Gunter. Dangosodd cyfrifiad 1911 bod Reginald yn byw yn The Birches, Pen-allt. Cofnodwyd mai "houseboy" oedd Reginald.

Mae yna gofnod bod Reginald Gunter wedi ymuno â'r 122nd Brigade Royal Field Artillery ym Magnelfa "D" ar 29 Rhagfyr, 1916. Ymrestrodd yn Henffordd, a daeth yn Yrrwr W/1616 (neu W/16161 o bosib) Reginald Charles Gunter. Cafodd ei ladd ar faes y gad ar 16 Awst 1917.

Gwasanaethodd yn Ffrainc a Fflandrys. Y medalau yr oedd ganddo hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain, Medal Buddugoliaeth Prydain a Seren 1915. Cafodd ei gladdu ym Mynwent Bard Cottage, Ieper, Gwlad Belg.

Preifat 179120 Edward John Morgan

Ganwyd Edward ("Teddy") ym Mhen-allt ym 1899. Bedyddiwyd ef yn Hen Eglwys Pen-allt ar 26 Chwefror 1899, yn fab i Tom Watkin Morgan ac Annie Morgan (Haskins yn enedigol) o Cherry Orchard, Pen-allt.

Dengys cyfrifiad 1901 ei fod yn byw "Near Old Church," Pen-allt, pan oedd yn ddwy oed. Roedd cyfrifiad 1911 yn dangos bod Edward yn byw yn Lone Lane, Pen-allt.

Ymunodd Edward â Bataliwn y Machine Gun Corps (Troedfilwyr) (F). Daeth yn Breifat 179120 Edward John Morgan. Bu farw Edward yn yr Ysbyty Milwrol, Cannock Chase, Swydd Stafford ar 15 Tachwedd 1918, o niwmonia pan oedd yn 19 oed, yn union ar ôl y Cadoediad. Mewn gwirionedd dim ond am bum niwrnod y bu'n gwasanaethu, ac felly nid oedd ganddo hawl i gael unrhyw fedalau. Claddwyd Edward ym Mynwent Eglwys Pen-allt ar 24 Tachwedd 1918.

Preifat 33558 William John Morgan

Ganwyd William ym Mhen-allt ym 1880. Dengys cyfrifiad 1891 mai ysgolor ydoedd yn 11 oed, yn byw gyda'i dad mewn cyfeiriad "Near Old Church". Mae cyfrifiad 1901 yn dangos ei fod yn byw yn 161 Victoria Road, Coleford, fel lletywr yn y tŷ. Cynorthwydd groser oedd ei alwedigaeth pan oedd yn ugain oed.

Ym 1911, roedd yn byw yn Blackbrook Cottage, roedd 32 oed ac yn briod, ac roedd ei wraig, Edith Elizabeth A. Morgan (Rowlands yn enedigol) yn 33 oed. Roedd William yn gweithio yng Ngwaith Tunplat Redbrook fel "Sheet Opener".

Ymunodd â 9fed Bataliwn y Welch Regiment, gan ymrestru yn Nhonypanyd a daeth yn Breifat 33558 William John Morgan. Cafodd ei ladd ar faes y gad ar 7 Gorffennaf, 1916 yn 37 oed. Adeg ei farwolaeth, roedd cofnod ohono fel mab i William a Mary Morgan a gŵr Elizabeth Alice Morgan, Tinworks Road, Lower Redbrook, Trefynwy.

Gwasanaethodd yn Ffrainc a Fflandrys. Y medalau yr oedd ganddo hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain a Medal Buddugoliaeth Prydain ond nid Seren 1915. Gan nad oes ganddo unrhyw fedd hysbys, caiff ei enwi ar Gofeb Thiepval.

Preifat 55541 Phillip Harry Roberts

Ganwyd Phillip ym Mhen-allt ym 1897, yn fab i George a Mary Ann Roberts Pen-allt. Dengys cyfrifiad 1901 ei fod yn byw yn Old House Farm, Pen-allt, pan oedd yn bedair oed, ac ym 1911, roedd yn byw yn Cherry Tree Cottage, Tregagle.

Erbyn 29 Rhagfyr, 1916, cofnodir ei fod wedi ymuno â'r Welsh Horse Regiment. Ymrestrodd yn nhref Nghasnewydd. Ar y pryd, dywedwyd ei fod yn byw yng Nghwmarfan.

Daeth yn Breifat 11710 Phillip Harry Roberts ac yn ddiweddarach fe'i trosglwyddwyd i'r 2il Bataliwn, yna i 17eg Bataliwn y Royal Welsh Fusiliers, gan ddod yn Breifat 55541 Phillip Harry Roberts. Dangosodd Cofrestr Pleidleiswyr Absennol 1918 ei fod yn byw yn Cherry Tree Cottage.

Bu farw Phillip yn 21 oed ar 23 Tachwedd, 1918, o glwyfau neu afiechyd ar ôl llofnodi'r Cadoediad. Gwasanaethodd yn Ffrainc a Fflandrys. Y medalau yr oedd ganddo hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain a Medal Buddugoliaeth Prydain ond nid Seren 1915. Fe'i claddwyd yn Estyniad Mynwent St Sever yn Rouen.

Reifflwr 59797 Charles James Vaughan

Ganwyd Charles ym Mhen-allt ym 1897. Fe'i bedyddiwyd yn Hen Eglwys Pen-allt ar 9 Ionawr 1898, yn fab i James ac Elizabeth Vaughan o Little Hoop, Pen-allt.

Dengys cyfrifiad 1901 ei fod yn byw yn Little Hoop, Pen-allt, ac yng Nghyfrifiad 1911 mae'n ysgolor 13 oed sy'n dal i fyw yn "Little Hoop". Ymunodd â Bataliwn 1af y Monmouthshire Regiment (Territorial Regiment), ac ymrestrodd yn Nhrefynwy.

Daeth yn Reifflwr 59797 Charles James Vaughan. Cofnodir lleoliad ei wasanaeth milwrol fel "Cartref", felly rydym yn cymryd na fu dramor erioed.

Bu farw Charles o'r fflw ar 22 Tachwedd, 1918 pan oedd yn 21 oed, yn Herne Bay, ar ôl i'r Cadoediad gael ei lofnodi. Claddwyd Charles ym medd y teulu ym Mynwent Eglwys Pen-allt ar 1 Rhagfyr, 1918, ac ar ei garreg fedd mae'r geiriau "died serving his country".

Preifat 13227 Victor Edwin Wilkins

Roedd Victor yn fab i Henry a Louisa Wilkins o Landogo a Phen-allt. Dengys cyfrifiad 1901 eu bod yn byw yn 43 Penyvan Hill, Llandogo. Roedd Victor yn 13 oed ac yn gweithio fel gwas fferm. Roedd cyfrifiad 1911 yn dangos eu bod yn byw mewn tŷ pedair ystafell, "The Bowery", Tregagle Farm. Roedd Victor yn 23 oed, ac yn gweithio yng ngwaith tunplat Redbrook fel labrwr. Ym 1915, roedd y teulu yn dal i fod yn The Bowery.

Yn nhrydydd chwarter 1915, priododd Victor â Winifred L Thomas ym Mhenfro. Roedd yn byw yn The Bowery ym Mhen-allt ym 1918, a bu'n gwasanaethu gyda'r Shropshire Light Infantry.

Ymrestrodd Preifat 13227 Victor Edwin Wilkins oddeutu 7-9 Medi 1914 yn Nhrefynwy, yr un pryd â Phreifat 13228 William Henry Howells a Phreifat 13229 William Edwards Hawkins. Mae'r rhifau dilynol yn dangos eu bod wedi ymrestru ar yr un pryd. Anfonwyd Wilkins i'r 2il Fataliwn ac fe aeth i Ffrainc/Fflandrys ar 25 Awst, 1915.

Clwyfwyd Victor, ond ni wyddom pryd, a bu farw ar 1 Chwefror 1919 yn yr Ysbyty Rhyfel yng Nghaerfaddon. Adeg ei farwolaeth, ei gyfeiriad cartref oedd The Bowery, Tregagle, Pen-allt.

A. B Wales Z/2349 Alfred George Wilkins

Roedd Alfred yn frawd i Victor Edwin Wilkins, yr adroddir ei hanes uchod. Fe'i ganwyd ar 18 Gorffennaf, 1894 yn Llandogo, yn fab i Henry a Louisa Wilkins. Mae cyfrifiad 1891 yn dangos bod ei deulu'n byw yn Rhif 14 Llandogo. Dengys cyfrifiad 1901 eu bod yn byw yn 43 Penyvan Hill, Llandogo. Dengys Cyfrifiad 1911 bod George yn dal yn byw gartref yn "The Bowery", Tregagle Farm pan oedd yn 16 oed ac yn gweithio fel gwas fferm. Yn ddiweddarach, bu Alfred yn gweithio yn y gwaith tun yn ardal Redbrook. Ymunodd â'r Royal Naval Regiment Reserve ar 25 Hydref 1915 a daeth yn Wales Z/2349 Able Seaman Alfred George Wilkins. Roedd cofnod ohono fel un o griw'r Victory VI RND. Aeth ar drên yn Blandford ar noson 24/25 Medi 1916, o'r 3ydd Bataliwn Wrth Gefn i Fataliwn Anson ar gyfer y British Expeditionary Force fel Gynnwr Lewis.

Lladdwyd Alfred ar faes y gad ar 11 Gorffennaf 1917 pan oedd yn 23 oed. Cafodd ei berthnasau agosaf eu hysbysu'r diwrnod hwnnw. Alfred oedd y pedwerydd dyn o Ben-allt i gael ei ladd ar faes y gad, a'r medalau yr oedd ganddo hawl i'w cael oedd Medal Rhyfel Prydain a Medal Buddugoliaeth Prydain. Fe'i claddwyd ym Mynwent Naval Trench, Gavrelle, Ffrainc.

Wedi'i lunio gan Peter a Linda Garwood gyda chyllid gan: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Cofnodion Rhyfel, Cyngor Cymuned Trellech United, Cymdeithas Frenhinol Nofel, Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin, Lleng Brydeinig Frenhinol, Cyngor Sir Fynwy, a chyfraniadau preifat.
Peter a Linda Garwood 2017